Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 12-10-21 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), Wendy Williams, John Emlyn Jones, Ceri Leeder, John Lloyd Williams, Gwenan Roberts, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Geraint Owen, Gwyn Jones, Arthur Williams |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (07/09/21).

   Cynigwyd cofnodion 07/09/21 yn gywir gan Cyng Austin ac eiliwyd gan Cyng John Emlyn.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Cae Chwarae:**

     Diolchodd y Cadeirydd i Cynghorwyr Ceri a Gwenan am eu holl waith caled gyda'r gwaith yn y cae chwarae.

   - **Toiledau'r Pentref:**

     Y Clerc heb hysbysebu eto oherwydd salwch. Y Clerc i gysylltu efo CBSC.

   - **Mynwent y Cyngor:**

     - Cafwyd trafodaeth am dorri gwair yn y fynwent. Y Clerc i drafod gyda'r contratwyr.
     - Mae angen llefydd amlosgi ychwanegol. Y Clerc i holi am bris.
     - Canllaw haearn wedi ei osod yn y fynwent.
     - Arian gwirfoddol wedi ei gynnig gan aelodau o'r cyhoedd tuag at dorri'r glaswellt. Y Clerc i gysylltu gyda Un Llais Cymru ynglyn â rheolau arian gwirfoddol.

- **Bwrdd Gwybodaeth y Pentref:**

  - Cyng Wendy wedi bod i edrych ar y bwrdd gwybodaeth a'i lanhau. Y map yn ei hun yn oce. Y ffram wedi pydru mewn rhai darnau a mae'r postyn wedi pydru un ochr. Cyng Gwilym i gael golwg ar y ffram a'r postyn.
  - Y coed tu ol i'r bwrdd gwybodaeth angen eu torri ychydig. Cyng Austin i edrych ar y coed.

- **CoffiStop y Pentref:**

  Derbyniwyd llythyr gan CoffiStop y pentref yn gofyn am grant bach o £50 am dreuliau cyffredinol. Trafodwyd y mater gan y Cynghorwyr ond teimlwyd nad oedd angen grant ar hyn o bryd. Y Clerc i anfon llythyr o ddiolch i'r trefnwyr.

- **Biniau Baw Ci:**

  Mae preswylydd wedi gofyn am finiau baw cŵn mewn dau leoliad gan fod llawer o fagiau cŵn wedi'u gollwng yn y lleoliadau hyn. Dywedodd Cyng Wendy nad oedd hi wedi gweld unrhyw fagiau cŵn ar Ffordd Gyffylog.

  Mae Cyng Austin wedi gofyn i CBSC am fwy o finiau baw cŵn ond mae wedi cael ei wrthod bob tro. Mae cost ar gyfer y bin ac mae cost ar gyfer ei gasglu. Hefyd mae diffyg difrifol o finiau sbwriel yng nghyffiniau Eglwys Bach ond cafwyd yr un ymateb.

- **Banner y pentref:**

  Cyng Austin wedi siarad efo Paul – popeth yn oce gyda trefniadau dros y gaeaf.

- **Sgip Cymunedol:**

  Sgip wedi ei archebu ar gyfer dydd Mawrth 02/11/21.

- **Awdit 20/21:**

  Dim diweddariad.

6. **CYNLLUNIO**

- **Cyfeirnod: 0/48858**
  Ymgeisydd: Mr and Mrs Swinnerton
  Cynllun: Balconi arfaethedig ac estyniad newydd i'r ystafell haul gyda theras ar annedd breswyl
  Safle: Plas Iwrwg Plas Iwrwg Road Maenan Llanrwst LL26 0YN

Dyddiad Cau: 08/10/21

Dim sylw.

- **Cyfeirnod: 0/48877**
  Ymgeisydd: Mrs Anne Ffowcs-Williams
  Cynllun: Estyniad i annedd
  Safle: Ty Uchaf Ffordd Ty Uchaf Graig Eglwysbach LL28 5RL

  Dyddiad Cau: 30/09/21

  Dim sylw.

- **Cyfeirnod*: 0/48889***
  Ymgeisydd*:* Mr Phil Holland
  Cynllun: Adeiladu estyniad Unllawr i'r Ystafell Wydr yng nghefn yr eiddo
  Safle: Ithelfryn Ffordd Ty Gwyn Eglwysbach LL28 5RN

  Dyddiad Cau: 01/10/21

  Dim sylw.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £7,345.88 (angen talu £720.00 i Carwyn eto a £60.00 i Iona Williams)
Angladdau - £1,527.70
Cadw - £2,078.31

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Ceri Leeder (Cae Chwarae) - £20.00

**Angladdau:**
- Gerallt Evans Metalcraft Ltd - £912.00
- Carwyn Hughes, Pen Bryn - £408.00

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: CBSC – Cartrefi Conwy – Gwasanaeth Newydd Annibynnol Fi:**
  Noder er gwybodaeth. Cyng Ceri i hysbysu ar dudalen Facebook y Cyngor.

- **E-Bost: CBSC – Comisiynydd Pobl Hyn Cymru - Sesiynau Ymgysylltu – Ailgysylltu â'n Chymunedau:**
  Noder er gwybodaeth. Cyng Ceri i rannu gyda'r CoffiStop.

- **E-Bost: Clear-Village - Prosiect Fablab Symudol:**

Noder er gwybodaeth. Cyng Ceri i edrych i mewn i'r prosiect.

- **E-Bost: CBSC - Gweithdai Diogelwch ar y We:**
  Noder er gwybodaeth. Cyng Ceri i hysbysu ar dudalen Facebook y Cyngor.

- **E-Bost: Un Llais Cymru - Gweminar Loteri Genedlaethol:**
  Noder er gwybodaeth. Cyng Ceri wedi gyrru'r gwybodaeth i bartïon â diddordeb.

- **E-Bost: CBSC - Cronfa Rhagoriaeth Conwy:**
  Noder er gwybodaeth. Cyng Ceri i hysbysu ar dudalen Facebook y Cyngor.

- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2022:**
  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: Senedd Ieuenctid Cymru - Llythyr o Senedd Ieuenctid Cymru:**
  Noder er gwybodaeth. Cyng Ceri i hysbysu ar dudalen Facebook y Cyngor.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Llwybyr cyhoeddus rhif 13/06 tu ol i Ffordd Gyffylog rhedyn angen ei dorri yn ol ar hyd y llwybyr.
- Clawdd angen ei dorri rhwng Yr Efail a'r ysgol.
- Angen baner newydd. Yr Holl Gynghorwyr yn cytuno. Cyng Ceri i archebu un.
- Mae llawer o losgi wedi digwydd yn y pentref yn ddiweddar. Cyng Ceri i roi gwybod ar dudalen Facebook y Cyngor.
- Ffordd Rhiwlas mewn cyflwr drwg, llawn o dyllau.
- Cynghorwyr Gwilym, Wendy, Geraint a John Emlyn yn edrych ar contract y Clerc. Llawer o bolisiau wedi eu cael gan CBSC i edrych arnynt. Cyng John Emlyn i'w rhannu gyda'r cynghorwyr eraill.
- Cyng Austin wedi cyfarfod gyda CBSC am oryrru yn y pentref – CBSC wedi cytuno i roi offer monitro cyflymder yn y pentref.
- Angen llnau y MUGA yn yr ysgol. Y Clerc i siarad gyda'r ysgol yn gyntaf.
- Cyfarfodydd y Cyngor – cafwyd trafodaeth am y cyfarfodydd. Yr holl gynghorwyr yn hapus ar hyn o bryd i aros yr un fath a cynnal cyfarfodydd y Cyngor dros y we.
- Wi-Fi yn y neuadd - BT heb fynd yno eto, ond yn ail drefnu dyddiad.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

02/11/21
07/12/21

Daeth y cyfarfod i ben am 9.03 o'r gloch.